**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Elin Jones AC, y Llywydd

Jeremy Miles AC, Cwnsler Cyffredinol

17 Gorffennaf 2019

Annwyl Lywydd a Chwnsler Cyffredinol,

**Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)**

Ysgrifennaf yn dilyn dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil ar 10 Gorffennaf 2019 a'n gohebiaeth flaenorol ynglŷn â'r Bil hwn.

Yn ystod y ddadl, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol ei fwriad i gyflwyno gwelliannau i'r Bil mewn perthynas ag atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol ac y bydd yn oedi o ran cynnig penderfyniad ariannol nes ei fod yn gallu darparu'r wybodaeth hon.

Yn llythyr y Cwnsler Cyffredinol ar 25 Mehefin 2019, nododd hefyd fod trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys y DU ynglŷn â'r dull o ariannu'r Comisiwn Etholiadol. Fodd bynnag, mae'r ddau brif opsiwn dan sylw yn tybio y bydd cyllid yn trosglwyddo o Gronfa Gyfunol y DU i Gronfa Gyfunol Cymru. Er fy mod yn deall bod hwn yn faes cymhleth a allai fod angen caniatâd y Goron, mae'n hanfodol bod y Pwyllgor Cyllid yn cael cyfle i ystyried y gwelliannau a'u goblygiadau ariannol mewn perthynas â'r materion hyn cyn trafodion Cyfnod 2.

O gofio bod trafodion Cyfnod 2 wedi'u trefnu ar gyfer 9 Hydref, byddwn yn gofyn i'r gwelliannau gael eu cyflwyno mewn da bryd i alluogi'r Pwyllgor Cyllid i'w hystyried cyn gofyn i'r Cynulliad gytuno ar y penderfyniad ariannol. Ochr yn ochr â'r gwelliannau a gyflwynir, byddem yn disgwyl gwybodaeth ariannol hefyd o ran atebolrwydd a threfniadau ariannu'r Comisiwn Etholiadol.

Yn dibynnu ar eich bwriadau o ran cynnig Penderfyniad Ariannol, hoffem eich gwahodd eich dau i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid **ddydd Iau 19 Medi neu ddydd Mercher 25 Medi**, i sicrhau bod y darpariaethau newydd yn destun y gwaith craffu gofynnol. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe bai'r gwelliannau a'r wybodaeth ariannol yn cael eu cyflwyno cyn y cyfarfod er mwyn hwyluso'r sesiwn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â thîm clercio’r Pwyllgor Cyllid SeneddFinance@Cynulliad.Cymru ynghylch eich dyddiad dewisol a'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid